Dr A T Shariff
Canolfan Feddygol Albany
Llawr 1af, Siambrau Albany
Skinner Street
Casnewydd
NP20 1HD

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

1 Awst 2014

Annwyl Dr Sharif,

**Parthed: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â Chanolfan Feddygol Albany, Casnewydd ar 7 Gorffennaf 2014**

Fel y gwyddoch fe gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â Chanolfan Feddygol Albany, Casnewydd ar 7 Gorffennaf 2014.

**Cefndir**

Cynhaliwyd ymweliad arolygu dirybudd â Chanolfan Feddygol Albany, Casnewydd ar 7 Gorffennaf 2014. Roedd yr ymweliad arolygu'n canolbwyntio ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennaeth, trafod gyda'r Rheolwr Cofrestredig a thaith o amgylch y safle. Mae'r clinig wedi'i gofrestru i ddarparu cyngor a thriniaeth rheoli a cholli pwysau gan ymarferwyr meddygol i gleifion sy'n ddeunaw oed a throsodd.

Mae'r clinig wedi'i leoli mewn hen adeilad y mae angen rhoi sylw iddo o ran ei lanhau a'i addurno. Nid oedd y lifft yn gweithio ac roedd wedi bod felly am y deuddeng mis blaenorol. Mae'r landlord yn ymwybodol o'r materion o ran y cyfleusterau a'r amgylchedd. Cafodd yr adolygwyr eu hysbysu y byddai cleifion a oedd ag anawsterau symudedd ac a oedd yn methu â dringo'r grisiau yn cael cynnig ymweliad â'r cartref. Byddai cleifion â phlant mewn cadeiriau gwthio'n cael eu helpu i fynd i fyny'r grisiau gan staff y clinig. Byddai'r holl gleifion yn cael eu hysbysu mai trwy fynd i fyny'r grisiau yn unig y byddent yn gallu cael mynediad i'r clinig, ar adeg y cyswllt cyntaf dros y ffôn.

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion ar gael yn yr ystafell aros ac yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, roedd angen rhoi rhif fersiwn, dyddiad cyhoeddi a manylion cyswllt newydd AGIC ar y ddwy ddogfen hon. Cafodd AGIC gadarnhad bod y ddwy ddogfen wedi'u diweddaru ar 8 Gorffennaf 2014.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gyfer cleifion ar gael yn yr ardaloedd aros ac roedd pob claf yn cael gwybodaeth am fwyta'n iach a cholli pwysau fel rhan o'u cynllun triniaeth.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Roedd gwybodaeth am fodlonrwydd cleifion ar gael a chafodd yr adolygwyr eu hysbysu bod cleifion yn fodlon iawn ar y gofal yr oeddent yn ei gael. Roedd arolwg o holiaduron bodlonrwydd cleifion yn cael ei gynnal yn flynyddol ac roedd canlyniadau'r arolygon hyn yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd gan gleifion ar y gwasanaeth a ddarperir.

Hefyd, roedd blwch sylwadau yn yr ystafell aros ac roedd cleifion yn cael eu hannog i roi adborth ar lafar ar adeg eu cyswllt â'r clinig. Roedd rhai sylwadau wedi cael eu gwneud am brisiau ac oriau agor, ac roedd cynllun gweithredu i wella'r ail o'r rhain wedi cael ei ddatblygu. Cafodd yr adolygwyr eu hysbysu na chafwyd cwynion dros y deuddeng mis diwethaf.

Edrychwyd ar gofnodion cleifion ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am hanes meddygol, ffurflenni cydsynio, a threfnau triniaeth a oedd yn cael ei diweddaru yn ystod pob ymweliad. Roedd cynllun ar gyfer archwiliadau clinigol a oedd yn gysylltiedig ag arolygon canlyniadau cenedlaethol. Roedd hwn yn cael ei gwblhau'n flynyddol a chafodd canlyniadau'r archwiliad hwn eu hadolygu ar adeg yr arolygiad. Roedd arfer seiliedig-ar-dystiolaeth yn bodoli ac roedd gofal yn dilyn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ar gyfer rheoli pwysau.

Roedd yr holl bolisïau priodol ar gael ac roedd tystiolaeth bod staff anfeddygol wedi llofnodi i ddweud eu bod wedi darllen ac y byddent yn cydymffurfio â'r polisïau sefydliadol. Trafodwyd yr angen i staff meddygol lofnodi'r ffurflen cofnodi datganiad polisïau ar adeg yr arolygiad.

Cafodd cofnodion o addysg orfodol gan gynnwys tân, rheoli data, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), iechyd a diogelwch, rheoli heintiau, codi a chario ac ymdrin â digwyddiadau anffafriol eu hadolygu ar gyfer staff meddygol. Cafodd yr adolygwyr eu hysbysu bod aelodau eraill o staff wedi cael hyfforddiant gorfodol, ond nid oedd unrhyw gofnodion yn cael eu cadw. Trafodwyd yr angen i gadw'r cofnodion hyn ar adeg yr ymweliad.

Fe adolygwyd ffeiliau staff ac roedd nifer o ffotograffau digonol ar gyfer staff a gwiriadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol/Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (CRB/DBS) yn eisiau. Roedd system ar gyfer arfarniadau blynyddol a gwybodaeth am ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd asesiadau risg amrywiol yn bodoli ac roedd system ar gyfer rheoli meddyginiaeth a oedd yn cynnwys cofnodi'r stoc o feddyginiaeth a oedd yn weddill a phresgripsiynau cleifion. Roedd archwiliad o'r prosesau hyn yn cael ei gynnal bob pythefnos.

**Y Safle, yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau**

Roedd y safle cofrestredig ar y llawr cyntaf mewn adeilad tri llawr, sydd wedi'i leoli yng nghanol Casnewydd. Nid oedd y lloriau uchaf a rhan o'r llawr cyntaf wedi'u meddiannu. Fel a nodwyd uchod, nid oedd y lifft ar gyfer teithwyr wedi bod yn gweithio am y flwyddyn flaenorol ond roedd yn hawdd agor y gatiau ar lefel y llawr cyntaf. Hysbysodd y rheolwr cofrestredig y byddai cadwyn yn cael ei darparu i ddiogelu'r gatiau, i osgoi unrhyw fynediad damweiniol i mewn i gerbyd y lifft.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Roedd dihangfa dân arall ar gael heblaw am y brif staer fynediad, gydag arwyddion dianc addas, ond nodwyd nad oedd goleuadau argyfwng yn yr ardal. Bydd angen adlewyrchu hyn yn yr asesiad risg tân cyfredol a rhoi mesurau priodol ar waith.

Roedd tystysgrif y gosodiad gwifrau trydanol wedi dod i ben ym mis Mehefin 2013, ac nid oedd wedi cael ei hadnewyddu. Nid oedd unrhyw gofnodion ar gael o Brofion Dyfeisiau Cludadwy (PAT). Er nad oes gofyniad cyfreithiol i gadw cofnodion o weithgareddau PAT, gall cofnodion ac/neu labelu fod yn erfyn rheoli effeithiol ar gyfer monitro effeithiolrwydd cynllun cynnal a chadw o'r fath. Rhoddwyd argymhellion gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar gyfer profi dyfeisiau dosbarth 1 a dosbarth 2 yn briodol.

Roedd y gosodiad larwm tân wedi cael ei drin ar 10 Mawrth 2014, ond gydag amodau yn yr ystyr nad oedd modd mynd i rai ardaloedd. Hysbyswyd fod gan y siop ffôn ar y llawr gwaelod banel aildrosglwyddo ar gyfer larwm tân yr adeilad, a'u bod yn profi'r system bob wythnos, yn unol â'u contract cynnal a chadw gwasanaethau gyda Mitie. Nid oedd unrhyw gopïau caled o gofnodion yn cael eu cadw, gan fod y rhain yn cael eu hanfon yn electronig i Mitie, yn dilyn eu cwblhau bob wythnos. Roedd diffoddwyr tân wedi cael eu trin ym mis Rhagfyr 2013. Roedd yr adolygiad blynyddol o'r Asesiad Risg Tân mewnol yn hwyr ac roedd angen ei ddiweddaru yn Adran J i adlewyrchu diffyg goleuadau argyfwng ar hyd y llwybr at y ddihangfa dân.

Nodwyd fod angen tacluso ardal y gegin yn gyffredinol, a bod angen ei hailaddurno ers i ddŵr glaw ddod i mewn. Roedd toiledau ar wahân ar gyfer dynion a menywod yn cael eu darparu, ac nid oedd tywelion papur o fewn y peiriannau dosbarthu. Yn lle hynny roedd rholyn o bapur cegin yn cael ei ddarparu yn y ddau doiled, rhywbeth yr ystyrir nad yw'n briodol o safbwynt hylendid. Ar ben hynny, nid oedd y drws mewnol yn y cuddygl yn nhoiled y dynion yn gallu cael ei gau a'i gloi'n effeithiol.

**Fe Wnaeth yr Ymweliad Amlygu'r Meysydd Nodedig Canlynol**

- Mae gofal yn berson-ganolog, ac mae preifatrwydd, urddas ac unigolrwydd yn cael eu hystyried
- Roedd system ar gyfer archwiliadau clinigol a thystiolaeth bod newidiadau'n deillio o adborth gan gleifion ac o'r broses archwilio

**Pryderon**

- Mae angen diweddaru ffeiliau staff â'r wybodaeth gywir
- Diffyg tystysgrif gyfredol ar gyfer y gosodiad gwifrau trydanol, a darpariaeth goleuadau argyfwng ar y staer sy'n arwain at y ddihangfa dân

Rhoddwyd adborth ar lafar trwy gydol ac ar ddiwedd yr arolygiad.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

**Gofynion newydd o ganlyniad i'r arolygiad hwn:**

| **Camau Gweithredu sy'n Ofynnol** | **Rhif y Rheoliad** |
|---|---|
| Mae angen diweddaru ffeiliau personél staff â ffotograffau a statws CRB staff. | Rheoliad 20(1)(a)(b)ac20 (2) (a) (b) |
| Nid oedd cofnodion eglur o hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff anfeddygol | Rheoliad 20(1)(a)(b)ac20 (2) (a) (b) |
| Mae angen adolygu a diweddaru'r Datganiad o Ddiben. | Rheoliad 8 |
| Adolygu'r Canllaw i Gleifion | Rheoliad 7 |
| Mae angen llofnodion staff ar gyfer darllen polisïau a chydymffurfio â hwy | Rheoliad 9 (1) (g) |
| Darparu cadwyn ddiogel ar gatiau mynediad y lifft | Rheoliad 26(2)(b) |
| Ailbrofi'r gosodiad gwifrau trydanol | Rheoliad 26(2)(a) |
| Adolygu dulliau a ddefnyddir ar gyfer profion PAT yn unol â Chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a chynhyrchu polisi ar gyfer trefn brofi | Rheoliad 26(2)(a) |
| Adolygu'r Asesiad Risg Tân Mewnol | Rheoliad 26(4)(f) |
| Gwneud gwaith cynnal a chadw yn ardaloedd y gegin a'r toiledau. | Rheoliad 26(2)(b) |

| **Argymhellion o ran Arfer Da:** |
|---|
| Cynnal ffolder o gylchoedd profi gwasanaethau o fewn y safle. |

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i'r aelodau o staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir

**Phil Price**
Rheolwr Arolygu

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk